



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
28 Chwefror 2019
Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Y Cyngorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Wendy Gunney (WG)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Nadia De Longhi (ND)	Rheolwr Gweithrediadau	Cyfoeth Naturiol Cymru
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd Dros Dro	BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Y Cyngorydd Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Hefyd yn bresennol:		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Deb Gibbs (eitem agenda 4)	Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol	Cyngor Bro Morgannwg
Ymddiheuriadau:		

Len Richards (LR)	Prif Weithredwr	BIP Caerdydd a'r Fro
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS)
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Chris Hadfield (CH)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Anne Wei (AW)	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol	BIP Caerdydd a'r Fro

	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd NM bawb i'r cyfarfod a bu cyflwyniadau. Dywedodd NM hefyd y byddai Mike Cuddy yn parhau fel cynrychiolydd y Cyngorau Tref a Chymuned ar y BGC.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau</p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p>3. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 18 Hydref 2019 a 5 Rhagfyr 2019</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfodydd.</p>	
<p>4. Y Diweddaraf ar Ddiogelwch Cymunedol</p> <p><u>Y Strategaeth Diogelwch Cymunedol:</u> Dywedodd DG fod y strategaeth diogelwch cymunedol ddrafft wedi'i chyflwyno i'r BGC i'w thrafod yn eu cyfarfod ym mis Mehefin. Yn dilyn trafodaeth yn y BGC, cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Ionawr. Gwnaed newidiadau yn dilyn ymgynghoriad a chytunwyd ar y camau gweithredu a'r ymrwymadau a nodwyd yn y strategaeth mewn cyfarfod o'i bartneriaeth strategol. Mae'r strategaeth bellach yn mynd drwy brosesau mewnol y partneriaid i'w chymeradwyo'n ffurfiol a chynhelir digwyddiad lansio yn ystod y misoedd nesaf.</p> <p>Eglurodd DG fod y bartneriaeth yn cynllunio ar gyfer dau brif ddigwyddiad eleni, y cyntaf yw digwyddiad lleol 'Cerdded Milltir yn ei Hesgidiau Hi' ym mis Mai a Diwrnod Hwyl i'r Teulu Bro Ddiogelach ym mis Gorffennaf. Bydd y diwrnod hwyl yn canolbwyntio ar droseddau â chyllyll i adlewyrchu pryderon a godwyd gan bobl ifanc ar draws Bro Morgannwg yn eu hymatebion i ymgyrch Senedd Ieuenctid 'Gwnewch eich Marc'. Nododd CJ bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda sefydliad trydydd sector ar hyn o bryd ar y pwnc troseddau â chyllyll a'i broblemau ehangach a byddai diddordeb ganddynt i drafod gyda chydweithwyr o'r Fro Ddiogelach.</p> <p><u>Newidiadau arfaethedig i'r Unedau Rheoli Sylfaenol:</u></p>	DG

<p>Cyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau i strwythur Uned Reoli Sylfaenol Heddlu De Cymru (BCU) ar draws Bro Morgannwg, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr. Bydd y Fro bellach yn cael ei phlisma fel rhan o Uned Reoli Sylfaenol Caerdydd a Bro Morgannwg, gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn ymuno â'r bwa gogleddol. O ganlyniad i'r newidiadau, bydd gan Uned Reoli Sylfaenol Bro Morgannwg a Chaerdydd dîm rheoli o tua 1,000 o staff erbyn hyn a bydd yn cwmpasu 42% o'r hyn y mae ardal lawn yr heddlu yn galw amdano. Bydd gan Operation Uplift, rhaglen y Swyddfa Gartref ar gyfer cyflwyno Swyddogion Heddlu newydd, nifer ychwanegol o swyddogion ar draws yr Uned Reoli Sylfaenol. Mae hyn yn adeiladu ar £1,200,000 o gyllid â ffocws ar fynd i'r afael â throeddau â chylllyll a £780,000 a ddyrannwyd i weithgareddau penodol i fynd i'r afael â thrais difrifol ar gyfer 2020/2021. Gofynnodd NM pryd y bydd y swyddogion newydd yn debygol o gael eu cyflwyno. Eglurodd LIC mai'r gobaith yw y bydd rhwng 400 a 430 o swyddogion ychwanegol yn cael eu cyflwyno dros y 3 blynedd nesaf.</p> <p><u>Praesept yr Heddlu 2020-2021:</u></p> <p>Esboniodd MB fod praesept yr heddlu o ran Heddlu De Cymru ar gyfer 2020-2021 bellach wedi'i gymeradwyo. Mae'r praesept yn setliad arian gwastad gydag arian ychwanegol wedi ei ddyrannu'n benodol ar gyfer recriwtio swyddogion ychwanegol drwy 'Operation Uplift' ond ni wneir unrhyw lwfansau ar gyfer chwyddiant na phwysau eraill. Er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau ar draws ardal De Cymru, cynigiwyd cynnydd o 5.9% i'r praesept. Esboniodd MB y bydd yn hanfodol i barhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith ymyrryd ac atal cynnar sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran mynd i'r afael â thrais yn y cartref.</p>	
<p>5. Cyflwyniad: Cynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol Drafft</p> <p>Gwnaeth AH gyflwyniad ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol Strategol Drafft Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Datblygwyd y Cynllun drafft gan arweinwyr gweithredol a chlinigol yn y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau y caiff modelau gwasanaeth cynaliadwy eu darparu a chynllun ar gyfer sut y bydd gwasanaethau cymunedol ac ysbyty yn datblygu dros y degawd nesaf. Mae'r cynllun yn cael ei brofi ar hyn o bryd drwy broses o ymgysylltu'n fewnol yn y Bwrdd Iechyd cyn ymgynghori yn allanol.</p> <p>Mae'r cynllun yn cyd-fynd â Strategaeth Cymru Iachach Llywodraeth Cymru, gan ddatblygu'r cysniad allweddol o ran canolfannau iechyd a lles yn benodol. Eglurwyd y caiff y newidiadau i'r gwasanaeth eu mesur yn erbyn claf cynrychioladol y BIP, sef Wyn, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn canolbwyntio ar ddinasyddion ac wedi eu dylunio i sicrhau diogelwch a llesiant y claf. Ceir cydnabyddiaeth gan systemau gofal iechyd eraill sydd wedi trawsnewid y ffordd y maent yn darparu systemau, o'r angen i symud i ffwrdd o fodelau gofal sy'n canolbwyntio ar ysbytai. Mae nifer o heriau i ymateb iddynt hefyd, fel y newidiadau demograffig ar draws Caerdydd a'r Fro, newidiadau o ran y galw am ofal iechyd a thriniaethau, newidiadau i'r gweithlu a heriau seilwaith.</p> <p>Y weledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yw model gofal integredig system- gyfan sy'n sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei gynnig yn y gymuned. Wrth i fwy o wasanaethau gael eu lleoli yn y gymuned, dim ond y gwasanaethau hynny sy'n gofyn am fâs critigol, mynediad i ofal critigol neu theatrau, neu offer diagnostig neu feddygol arbenigol, a fyddai'n cael eu darparu yn un o'r ddau ysbyty aciwt. Byddai'r dull hwn hefyd yn rhoi cyfleoedd i ysbytai barhau i fod yn ganolfannau gofal arbenigol megis darparu darpariaeth arbenigol sbinol yn Llandochoau. Wrth i dechnoleg ddatblygu, mae cyfleoedd hefyd i ddarparu gwasanaethau o safleoedd ar wahân i brif ysbytai, sef y dull a ddefnyddir</p>	

<p>ar hyn o bryd gyda chleifion ffeibrosis systig sy'n defnyddio gwasanaethau gyda'r Bwrdd Iechyd yn ganolfan ranbarthol ar gyfer De Cymru.</p> <p>Holodd JC a yw'r Bwrdd Iechyd yn ymgynghori â staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol cyn i'r ymgynghoriad fynd ymhellach. Eglurodd AH fod y dull o weithredu wedi'i ddatblygu gyda chyfraniad gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a bod enghreifftiau da o waith sydd wedi'i gyflawni hyd yma, megis gweithio gyda chlwtwr meddygon teulu Gorllewin y Fro i ddarparu gwasanaethau demensia, sy'n cael ei gyflwyno yng Ngogledd Caerdydd yn awr. Nododd CJ bod y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio gwella'r ffordd y mae'n rhannu'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda phartneriaid a'r cyhoedd.</p> <p>Gofynnodd HJ a oes gorgyffwrdd rhwng y newid mewn ffyrdd o fyw ac ymddygiad ac ymyrd yn gynnar, atal ac addysg. Dywedodd AH fod y cynllun yn rhan o'r jig-so ehangach o ddarpariaeth iechyd ac y bydd yn hanfodol i gysylltu â gwaith ymyrryd ac atal cynnar megis y 1,000 diwrnod cyntaf a phrofiadau plentyndod niweidiol (PPN) er mwyn cael effaith gadarnhaol ar iechyd gydol oes.</p> <p>Nododd NM y bydd yn hanfodol bod projectau atal ac ymyriadau cynnar o'r fath yn gydgyssylltiedig, er enghraifft gyda'r gwaith o gydlynu rhaglenni ysgolion. Dywedodd AH y cafwyd llwyddiant wrth hyrwyddo'r defnydd o sgrinio am ganser y coluddyn drwy ymgysylltu ag ysgolion.</p>	
<p>6. Cyllid Atal a Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Cyflwynodd AH adroddiad ar ddyrannu cyllid atal a blynyddoedd cynnar ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Esboniwyd bod tîm Iechyd y Cyhoedd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i strwythuro projectau mewn ymateb i'r dyraniad cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae cynigion wedi'u paratoi i gefnogi a bwrw ymlaen â chynlluniau a gytunwyd eisoes drwy Fyrddau Datblygu Cyhoeddus Bro Morgannwg a Chaerdydd gan gynnwys cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda. Nododd TB werthfawrogiad o'r gwaith o ddatblygu cynigion i gefnogi projectau y mae partneriaid yn bwrw ymlaen â hwy ac sy'n cysylltu â'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun llesiant y BGC. Nododd y BGC gefnogaeth i'r cyllid a chytunodd i hyrwyddo'r camau sy'n cael eu datblygu i wella iechyd a lles yn y Fro.</p>	
<p>7. Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda</p> <p>Cyflwynodd AH gynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda Caerdydd a Bro Morgannwg. Datblygwyd y cynllun ar sail partneriaeth ar draws BGC Caerdydd a'r Fro ac mae bellach yn cael ei gyflwyno i'r BGC i'w gymeradwyo. Cytunwyd ar y cynllun gan y BGC a chaiff ei dwys yn awr drwy brosesau mewnol ar gyfer cymeradwyo'r sefydliad. Dywedodd AH fod digwyddiad lansio wedi'i gynllunio a'r gobaith yw y bydd yn cael ei gynnal ar y cyd â digwyddiad sy'n cysylltu â'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun.</p>	<p>Pawb</p>
<p>8. Mynd i'r Afal Newid yn yr Hinsawdd</p> <p>Gwnaeth RT gyflwyniad ar ddatblygu ymateb y BGC i'r argyfwng hinsawdd. Rhoddodd RT drosolwg o'r cyd-destun cyfredol y mae'r BGC yn gweithio ynddo, gan gynnwys datganiad o argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019 a chan Gyngor Bro</p>	

<p>Morgannwg ym mis Gorffennaf 2019. Nodwyd bod y BGC wedi cytuno ym mis Hydref 2019 i wneud mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth allweddol. Ym mis Rhagfyr 2019 cynhaliodd y BGC gyfarfod gweithdy gyda phobl ifanc o grwpiau ar draws Bro Morgannwg. Trafodwyd yn y gweithdy sut gall partneriaid a phobl ifanc weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn y Fro, nodwyd tair blaenoriaeth yn ystod y cyfarfod i fwrw ymlaen â nhw a chafodd y rhain eu haddasu ychydig i'w gwneud yn briodol i'r cyhoedd a'r sefydliad partner. Dyma'r blaenoriaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo dewisiadau mwy cynaliadwy a moesegol gan gynnwys sut mae sefydliadau yn caffael nwyddau a gwasanaethau. - Gweithio mewn partneriaeth i leihau'r defnydd o blastigau ac i symud tuag at ddewisiadau bwyd mwy cynaliadwy mewn ysgolion ac yn ein sefydliadau. - Gweithio mewn partneriaeth i annog y defnydd o drafndiaeth gyhoeddus ac i'w gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio gan gydnabod pryderon penodol pobl ifanc a phobl hŷn. <p>Er mwyn bwrw ymlaen gyda'r blaenoriaethau hyn ac i sicrhau bod ein sefydliadau, partneriaid eraill a'r gymuned leol yn eu cefnogi, awgrymir datblygu Siarter Argyfwng Hinsawdd ar gyfer Bro Morgannwg. Bydd y Siarter yn adeiladu ar lwyddiant y Siarter Teithio Llesol i Staff, yn galluogi rhannu arbenigedd, yn nodi cyfleoedd ar gyfer mentrau a rennir a chynnwys y cyhoedd wrth lunio ein hymrwymiaidau a'n gweithgareddau. Bydd y Siarter yn cael ei llywio gan Drafodaeth Gymunedol a gaiff ei chynnal rhwng mis Ebrill a mis Mehefin a fydd yn galluogi aelodau'r cyhoedd i roi adborth allweddol ar ymrwymiaidau'r siarter ddrafft a'r gwaith y dylai partneriaid ei wneud i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd. Os bydd aelodau'r cyhoedd yn cefnogi'r dull hwn, caiff y Siarter Argyfwng Hinsawdd ei lansio yn ddiweddarach eleni, o bosibl ddiwedd mis Gorffennaf neu ddechrau mis Medi.</p> <p>Nododd ND fod y Siarter ddrafft wedi'i datblygu er mwyn galluogi i waith gael ei wneud ar sail partneriaeth, ond hefyd er mwyn i sefydliadau unigol ddatblygu eu cynlluniau gweithredu unigol eu hunain. Dylai'r Siarter annog herio'r arferion gwaith presennol a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd nawr yn hytrach nag aros i'r Siarter gael ei lansio. Esboniodd TB y gellid datblygu'r Siarter ar ei phen ei hun; fodd bynnag, byddai hyn yn cyfyngu ar y potensial i ddatblygu ymrwymiad cymunedol i'r gwaith hwn. Awgrymodd MC y bydd yn allweddol cynnwys grwpiau fel Gweithredu Ieuenctid Penarth a Llanilltud yn y sgysiau cymunedol. Cytunodd HM y bydd yn allweddol cynnwys grwpiau o'r fath a bod gan Fforwm 50+ y Fro ddiddordeb mawr mewn bod yn rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Nododd AH y bydd y Siarter yn rhoi ffocws i alluogi partneriaid i drafod gyda'u sefydliadau sut y gallant weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd, gyda'r Bwrdd Iechyd yn gosod uchelgais i fod yn enghraifft fel sefydliad mawr. Cytunodd EE y byddai'r Siarter yn helpu i gydgyssylltu gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd mewn sefydliadau unigol.</p> <p>Cytunwyd y caiff Siarter Argyfwng Hinsawdd ddrafft ei datblygu a'i dosbarthu i'r BGC cyn cynnal Trafodaeth Gymunedol ym mis Ebrill-Mehefin 2020.</p>	<p>HM</p>
<p>9. Cynnwys Pobl Ifanc yng Ngwaith y BGC</p> <p>Rhoddodd TB drosolwg o'r gwaith sydd wedi'i wneud i gynnwys pobl ifanc yng ngwaith y BGC, mae hyn yn cynnwys gweithdy gyda Chomisiynydd Plant Cymru ym mis Chwefror 2019, treialu Pecyn Cymorth Hawliau Plant y Comisiynydd a chyfranogiad pobl ifanc yng</p>	

<p>nghyfarfod y gweithdy ar Newid yn yr Hinsawdd ym mis Rhagfyr. Er mwyn adeiladu ar y rhan a chwaraeir gan bobl ifanc, awgrymwyd y dylid cynnal sesiwn herio ynghyd â gweithdy ym mis Mehefin i edrych ar sut y gall pobl ifanc gael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu adroddiad blynyddol y BGC ac wrth weithredu'r cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda.</p> <p>Cytunwyd y bydd trafodaeth ar sut y byddwn yn parhau i gynnwys pobl ifanc yng ngwaith y BGC yn agwedd allweddol o'r gweithdy ym mis Mehefin.</p>	Pawb
<p>10. Y diweddaraf o ran y Coronafeirws</p> <p>Dyweddodd AH fod llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer achosion o covid-19 posibl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Eglurwyd y bydd yn hanfodol sicrhau y caiff negeseuon clir eu cyfleu o ran yr hyn sy'n cael ei wneud i ymateb i'r feirws. Mae pethau syml y gall pobl eu gwneud i leihau lledaeniad y feirws megis golchi dwylo'n gyson a bydd yn bwysig ailadrodd y rhain wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ar hyn o bryd yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o senarios ac mae gwaith modelu wedi'i wneud i gynorthwyo'r â'r paratodau. Esboniwyd ein bod ar hyn o bryd ar y Cam Cyfyngu o'r cynlluniau a byddwn yn symud i'r Cam Oedi o ran y cynlluniau os bydd llawer o achosion. Esboniodd RT fod sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi bod yn rhannu negeseuon allweddol ac yn cysylltu'n ôl â negeseuon allweddol ar wefannau'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor.</p> <p>Nododd LIC y bydd yn bwysig i bartneriaid ystyried eu cynlluniau parhad busnes, yn enwedig mewn perthynas â staff rheng flaen.</p>	
<p>11. Y Flaenraglen Waith</p> <p>Hysbysodd TB fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Cadeirydd Fforwm strategaeth y Fro 50+ a swyddog arweiniol Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod nesaf y BGC ym mis Ebrill i ymuno â thrafodaethau ar y pwnc Bro sy'n Rhoi Cyfleoedd i'r Henoed</p> <p>Ym mis Mehefin, cynhelir gweithdy i ystyried y cynnydd yn erbyn y Cynllun Lles ac i drafod yr adroddiad blynyddol.</p> <p>Holodd MC a fyddai'n bosibl trafod gwaith Cynghorau Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg a'r cysylltiadau â'r BGC mewn cyfarfod yn y dyfodol. Byddai hyn yn cysylltu ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a nodwyd yn eu hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.</p>	
<p>12. Heriau a Chyfleoedd ac Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>Nododd TB ddiolchiadau'r Cyngor i'r partneriaid am eu cyfraniadau i'r cynllun corfforaethol. Cytunwyd ar y cynllun gan gyfarfod llawn y Cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror. Bydd Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) a fydd yn nodi'r camau y bydd y Cyngor yn eu gwneud i gyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol eleni yn cael ei ddsbarthu ar gyfer ymgynghoriad, a gwahoddir partneriaid i fynychu sesiwn galw heibio i randdeiliaid ar yr CCB ddydd Llun 23 Mawrth.</p>	

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 24 Ebrill 2020, 10.00 am – 12.00 pm.	